CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales
Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
01970 624 151 llyfrau.cymru

An English-language version of this document is also available /
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad adolygu: 3 Gorffennaf 2020

# Table of Contents


1 Introduction 3

2 Relevance 3

3 Legal background 3

4 Definitions 4

5 Details 5

5.1 Conduct of staff members 5

5.2 Supervision 5

5.3 The use of photographs of children and stories about children 5

5.4 Building/Buildings/Units (Eisteddfodau, Shows, Festivals, Competitions) 5

5.5 Recruiting for posts which could involve direct contact with children and young people 6

5.6 Children working for the Books Council 6

6 Responsibilities under the policy 6

7 Cross-references 7

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut y bydd Cyngor Llyfrau Cymru ("y Cyngor") yn diogelu'r plant a'r bobl ifanc y bydd yn gweithio gyda hwy.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cam-drin plant gan oedolion yn gallu digwydd – ac yn digwydd – mewn sefydliadau, drwy weithredoedd anfwriadol a bwriadol. Gall gweithredoedd anfwriadol ddigwydd o ganlyniad i ddiffyg diwydrwydd ac esgeulustod corfforaethol. Gall arwain at weithredoedd sy'n niweidio, megis anafu neu gipio, oherwydd gofal a goruchwyliaeth annigonol neu ddiffyg polisïau a gweithdrefnau. Gall hefyd ddigwydd am nad yw aelodau o'r staff yn cydymffurfio ag anghenion cyfreithiol.

Mae yna dystiolaeth fod troseddwyr rheibus, sydd â'r bwriad o gam-drin plant yn fwriadol, weithiau yn gosod eu hunain mewn sefydliad a/neu swydd sydd yn rhoi cyfle iddynt ymwneud yn uniongyrchol â phlant.

Mae diogelu plant yn fwy na mater o iechyd a diogelwch yn unig. Er bod gennym bolisi Iechyd a Diogelwch, ac er ein bod yn cynnal asesiadau risg, nid yw'r rhain yn ymdrin â phob sefyllfa ac amgylchiad sy'n berthnasol i ddiogelu plant. Yn y polisi hwn, nid ydym yn sôn am osgoi damweiniau na sicrhau bod hawliau plentyn yn cael eu gweithredu. Rydym yn sôn yn benodol am gam-drin (*abuse*).

Mae'r Cyngor hefyd am ddiogelu ei staff rhag cyhuddiadau annheg. Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod plant ac aelodau o'r staff yn cael eu gwarchod.

# 2 Perthnasedd

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff y Cyngor ac unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor, naill ai'n gyflogedig neu'n ddi-dâl.

Mae hefyd yn berthnasol i gyrff sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd y Cyngor yn holi'r sefydliadau hynny ynghylch eu polisïau diogelu plant.

# 3 Cefndir Cyfreithiol

Deddf Plant 1989 a 2004 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i sefydliadau, megis y Cyngor Llyfrau, sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o staff y Cyngor sy'n dod i gysylltiad â phlant wrth gynnal gweithgaredd, neu wrth gyflawni ei ddyletswyddau, i sicrhau nad achosir anaf neu golled i berson ifanc oherwydd i'r aelod hwnnw fethu cyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd resymol a gofalus. Mae dyletswydd hefyd i ymarfer goruchwyliaeth ddigonol.

Yn dilyn Cyfarwyddeb Gweithwyr Ifanc 94/33/EC, fel y mae'n cael ei gweithredu gan Reoliadau Amser Gweithio (Adolygiad) 2002, mae rhai darpariaethau'n berthnasol i 'weithwyr ifanc' (h.y. y rhai sydd dros oedran gadael ysgol ond sydd dan 18 mlwydd oed).

Y prif ddarpariaethau statudol sy'n rheoli oriau gwaith plant yw'r canlynol:

- Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933

- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Pobl Ifanc) 1997
- Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn yn y Gwaith) 1988.

Gall unigolyn gael ei wahardd rhag gweithio gyda phlant drwy ei gynnwys ar restr swyddogol. Mae 'n drosedd i gyflogwr recriwtio unigolyn i swydd lle bydd y person hwnnw'n gweithio gyda phlant os yw'r cyflogwr yn gwybod ei fod ar un o'r rhestrau hyn.

Mae gan y Cyngor Llyfrau bolisi yswiriant cyhoeddus (Public Liability) sy'n diogelu'r cyhoedd rhag unrhyw esgeulustod yng ngweithgareddau'r Cyngor. Nid oes gan y Cyngor bolisi cyffredinol i ddigolledu aelodau'r cyhoedd o ganlyniad i ddigwyddiad lle nad yw'r Cyngor wedi bod yn esgeulus, e.e. niwed personol, colli eiddo.

# 4 Diffiniadau

**Cam-drin**

Mae pedwar prif fath o gamdriniaeth:

i) corfforol

ii) emosiynol

iii) drwy esgeulustod

iv) rhywiol.

Digwydd camdriniaeth gorfforol pan gaiff plentyn ei daro, ei ysgwyd, ei losgi, ei frathu neu ei guro, neu pan roddir iddo gyffuriau niweidiol neu alcohol, neu pan gaiff ei anafu mewn unrhyw ffordd gan oedolyn.

Digwydd camdriniaeth emosiynol pan na fydd plentyn yn derbyn cariad neu pan gaiff ei fygwth neu ei watwar yn gyson.

Digwydd camdriniaeth drwy esgeulustod pan mae plentyn yn cael ei amddifadu'n fwriadol o rai elfennau sylfaenol megis bwyd, gwres, dillad a gofal meddygol.

Digwydd camdriniaeth rywiol pan ddefnyddir plentyn i ddiwallu anghenion rhywiol oedolyn. Gall hyn olygu cyfathrach rywiol â'r plentyn, ei anwesu'n amhriodol neu ddangos deunyddiau anllad iddo.

**Plentyn**

Yn y polisi hwn, y diffiniad o blentyn yw unrhyw un sydd o dan 18 mlwydd oed. Mae 'plant' yn golygu 'plant a phobl ifanc'.

.

# 5 Manylion

## 5.1 Ymddygiad aelodau o'r staff

- Ni ddylai aelod o'r staff fod ar ei ben ei hun gyda phlentyn
- Ni chaniateir i aelod o'r staff fynd â phlentyn mewn car ar ei ben ei hun
- Ni ddylid taro na chyffwrdd plentyn mewn modd a allai gael ei gamddehongli gan y plentyn neu gan rywun arall
- Dim ond aelod o'r staff sydd â chymwysterau Cymorth Cyntaf ddylai drin unrhyw anaf ar blentyn
- Dylid sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei roi i bob plentyn.

## 5.2 Gorychwyliaeth

Wrth gynnal gweithgareddau'n ymwneud â phlant, dylid sicrhau bod digon o staff yn bresennol i ddiogelu eu lles a'u hiechyd. Penderfynir ar nifer y staff neu'r oedolion yn ôl oed a gallu'r plant. Gall 'oedolyn' olygu person nad yw'n aelod o'r staff ond sydd â chysylltiad agos â'r plant sy'n ymwneud â'r gweithgaredd/digwyddiad ac sy'n gyfarwydd iddynt, e.e. athrawon ysgol.

## 5.3 Y defnydd o luniau o blant a storïau am blant

Rhaid sicrhau:

- bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol, oni bai ein bod wedi derbyn cytundeb y plentyn a'i riant/gwarchodwr
- bod delweddau o blant yn rhai parchus
- bod gennym ganiatâd ysgrifenedig rhieni / gwarchodwyr / ysgol cyn atgynhyrchu delweddau o blant
- bod plant a rhieni'n deall nad yw rhoi caniatâd i ddefnyddio gwybodaeth neu ddelweddau yn amod i gymryd rhan yn un o weithgareddau'r Cyngor.

## 5.4 Adeilad/Adeiladau/Unedau (Eisteddfodau, Sioeau, Gwyliau, Cystadlaethau)

Dylai staff â gofal sicrhau bod mannau cynnal gweithgareddau yn gwbl ddiogel ar gyfer y pwrpas, gydag asesiad risg wedi'i wneud cyn agor yr uned i'r cyhoedd. Cyn agor/cynnal gweithgaredd dylid ystyried y materion canlynol:

- dylai'r adeilad/uned fod o'r maint priodol ar gyfer ei bwrpas
- sicrhau bod y mynedfeydd yn glir a phob drws tân yn weithredol
- sicrhau bod mynediad hwylus i gadeiriau olwyn

- sicrhau bod y staff o fewn cyrraedd ffôn/ffôn symudol.

## 5.5 Recriwtio i swyddi a allai olygu cysylltiadau uniongyrchol â phlant a phobl ifanc

Bydd y Cyngor yn gofyn i'r ymgeisydd am y canlynol:

- manylion profiad blaenorol, gwirfoddol neu am dâl, o weithio gyda phlant
- geirda oddi wrth o leiaf un person sydd â phrofiad o waith cyflogedig neu wirfoddol yr ymgeisydd gyda phlant
- manylion unrhyw ddedfrydau am droseddau yn erbyn plant, gan gynnwys unrhyw ddedfrydau a roddwyd dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 y cwblhawyd y gosb ar eu cyfer.

## 5.6 Plant yn gweithio i'r Cyngor Llyfrau

Ni fydd y Cyngor yn derbyn plant ar brofiad gwaith o dan 18 mlwydd oed. Os bydd yn cyflogi plant, bydd y Cyngor yn cadw at y deddfau perthnasol parthed oriau ac amodau gwaith, ac yn cyflawni asesiad risg o drefniadau diogelu'r plentyn.

# 6 Cyfrifoldebau o dan y polisi

**Rheolwyr Llinell**

- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisi hwn
- Lle bo'n briodol, ceisio cyngor pellach gan y Pennaeth Cyllid a Busnes.

**Gweithwyr**

- Mae gan yr holl weithwyr gyfrifoldeb i gydymffurfio â llythyren ac ysbryd y polisi, ac i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

**Pennaeth Cyllid a Busnes**

- Adolygu'r polisi yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cyflogaeth gyfredol.
- Darparu cyfleoedd i gynrychiolwyr a staff y Cyngor i fynychu cyrsiau iechyd a diogelwch a chyrsiau diogelu plant, pan fo hynny'n briodol.
- Cynghori a rhoi cymorth i reolwyr llinell sy' n delio â staff sy' n mynd yn groes i'r polisi hwn.

## 7 Croesgyfeiriadau

I gynorthwyo staff y Cyngor, dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r polisïau personél perthnasol a restrir isod:

- Cod Ymddygiad
- Polisi Disgyblu
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Chwythu'r Chwiban.

An English-language version of this document is also available /
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg